
| | | |
|---|---|---|
| **Cofnodion cyfarfod 11 o Fehefin 2024 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa am 7 yn yr hwyr** | | |
| **PRESENNOL** | | |
| **Eifion Williams** | **Emyr Gareth** | |
| **Llŷr Evans** | **Daniel Williams** | |
| **Dafydd Huws** | **Meleri Jones** | |
| **Elenid Glyn** | | |

| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU** | |
| | Agorwyd y cyfarfod yn ffurfiol gan y Cadeirydd Eifion Williams. Cafwyd ymddiheuriadau gan Elen Gwenllïan, Nel Huws, Eleri Wyn Thomas, Cynog Prys. | |
| **1.1** | Ni chafwyd cyfraniad oddi wrth y cyhoedd. | |
| **1.2** | Llythyr gan Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru - cafwyd trafodaeth drylwyr ar ddiogelwch drwy'r pentref. Penderfynwyd bod cyfyngiadau 20 yn dderbyniol ochr Gaernarfon ond bod angen symud yr 30 m.y.a. ochr Seilo i warchod yr ardal ger y Cae Pêl Droed. (ger wal y Faenol) Penderfynwyd hefyd bod diogelwch ffyrdd ochr Gaernarfon o Frynffynnon hyd at tafarngrisiau yn peri pryder i'r Cyngor. Mae hyn oherwydd y canlynol: · Llwybrau yn dod i'r fewn i'r briffordd yn enwedig yr un sydd yn dod i'r ffordd heb unrhyw rwystr diogelwch, mae'r llall yn dod i mewn i balmant sydd ger y gysgodfan bws. · Mae plant yr ysgol uwchradd yn defnyddio'r ddau lwybr ar gyfer dal bws i'r ysgol. · Mae defnydd mawr o'r llwybr di-rwystr. · Mae parcio ar hyd un ochr ac mae gwelededd cerbydau yn cael ei rwystro oherwydd bod tro yn y ffordd, mae cerbydau yn dod i gwrdd â'i gilydd. · Mae biniau gwastraff ac ailgylchu o fewn y ffordd yn barhaus. · Mae cynllunio i ddau dy fydd yn caniatáu parcio o fewn eu cwrtil, o ganlyniad i hyn bydd cerbydau yn bagio allan o'r mynedfeydd i'r ffordd fawr, hefyd yn gyrru ar draws y palmant. Penderfynwyd gwneud cais i Gyngor Gwynedd i wneud archiad diogelwch y ffordd yr ardal dros yr Haf. | |
| **2.0** | **DATGAN DIDDORDEB** | |
| | Dim | |
| **3.0** | **CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL** | |
| **3.1** | Cyflwynwyd gwariant ac adroddiad ariannol mis Mai 2024 - derbyniwyd. | **CLERC** |
| **4.0** | **CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL A MATERION YN CODI** | |
| **4.1** | Cadarnhawyd cofnodion mis Mai 2024 yn rhai cywir. | **CLERC** |
| **4.2** | Toiledau - dim dilyniant ar y mater, parhau i ddisgwyl derbyn ymateb gan Robinsons. | **CLERC** |
| **4.3** | Cynllun Rheoli Traffig - Y Clerc i drefnu cyfarfod rhwng pawb ond yr heddlu ac yna anfon adroddiad iddynt o'r hyn fydd yn deillio o'r cyfarfod hwnnw. | **CLERC** |
| **4.4** | Biniau Cae Pêl droed Ffordd Lan y Môr a ger Safle Moria/Ger y Siop - dim gwybodaeth ond mae Swyddog | |

| | | |
|---|---|---|
| | arall am wneud archwiliad ar y biniau i gyd ar hyd y ffordd fawr drwy'r pentref yn gyntaf. | |
| **4.5** | Materion Priffyrdd - Rhes Gwelfor - dim dilyniant. | **CLERC** |
| **4.6** | Logo - y Clerc i gysylltu â'r ysgol i roi cyfarwyddiadau am y gystadleuaeth. Gobeithir gallu dewis y tri gorau ar gyfer etholiad diwrnod carnifal Gŵyl y Felinheli. | **CLERC** |
| **4.8** | Jetty a Slip way - penderfynwyd gwell byddai cael cyfarfod ar y safle er mwyn symud ymlaen a'r mater hwn. Y Clerc i drefnu gyda swyddog morwrol Gwynedd. | **CLERC** |
| **4.9** | Angen gwaith chwynnu ar lwybr steps - Y Clerc i drefnu gyda'r contractwr. Y Clerc hefyd i weld pa bryd fydd toriad ar y Lon Las oherwydd bod y tyfiant yn creu pryder i ddefnyddwyr. | |
| **4.10** | Golau Stryd Pen Ceunant - Cyngor Gwynedd yn methu cael ymateb gan berchennog yr eiddo ger lleoliad arfaethedig y golau. Nid oedd y Cyngor ychwaith yn gwybod pwy oedd y perchennog. Y Clerc i gysylltu yn ôl gyda Gwynedd i drio mynd i ymafael a'r mater hwn. | |
| **5.0** | **CEISIADAU CYNLLUNIO** | |
| **5.1** | Rhif Cais: C24/0391/20/DT Lleoliad: 13 Ffordd Hebog, Y Felinheli, LL56 4QZ Bwriad: Gosod pwmp gwres ffynhonnell aer Mitsubishi Electric PUZ-WM50VHA 5KW **DIM GWRTHWYNEBIAD** | |
| **6.0** | **RHEOLAETH** | |
| **6.1** | **Gwaith ar y wefan yn parhau. Y Clerc i wneud cais ar gyfer gwybodaeth gyfredol gan fusnesau ar gyfer y wefan. Mae'r wefan gyda rhai busnesau sydd wedi newid, rhai eraill wedi gorffen a.y.b.** | |
| **7.0** | **ASEDAU** | |
| | | |
| **8.0** | **LLWYBRAU CYHOEDDUS, LÔN LAS A PHRIFFYRDD** | |
| **8.1** | Gweler eitem 4.9 | **CLERC** |
| **8.2** | Daeth adroddiad i law bod trigolyn o Frynffynnon yn bryderus bod polion a gwifrau telecom o flaen ei dy yn amharu ar yr olygfa. Fe drafodwyd y mater a phenderfynwyd oherwydd nad oedd y polion o fewn perchnogaeth y Cyngor nid oedd ganddynt gyfrifoldeb am y mater. Hefyd yn unol â hawliau Cynllunio nid oes hawl i olygfa. Yn anffodus nid oedd y cyngor yn gallu ymdrin â'r mater yn bellach. Byddai rhaid i'r perchennog godi'r mater gyda British Telecom. | |
| **9.0** | **NEUADD GOFFA A CHLOC** | |
| **9.1** | Rhoddodd y Cynghorydd Daniel Williams adroddiad lafar: Roedd wedi ymweld â Neuadd Llanfairpwll gan eu bod wedi derbyn gwaith adnewyddu ac yn y blaen yn ddiweddar. Dywedodd bod y neuadd yn wahanol i'r Neuadd Goffa, sefyllfa wahanol. Roeddynt wedi cael estyniadau ac roeddynt wedi adeiladu i'r rheolau adeiladu cyfredol. Roedd ganddynt gyflwyniad da ac roedd am ofyn am gopi er mwyn ei rhannu a'r cynghorwyr. Roedd hefyd angen sgwrs ac awdur adroddiad mesuriadau colli egni - gobeithio gwneud hyn yn fuan. Mae gwydrau plastig wedi eu prynu | **DW** |

| | | |
|---|---|---|
| | gogyfer y neuadd. Nid plastig un defnydd ydynt. Mae angen edrych ar reolau defnyddio'r neuadd. Gobeithio trefnu cyfarfod yn fuan. | |
| **10.00** | **CYNLLUN LLIFOGYDD CYMUNEDOL** | |
| | Mae angen gwneud adroddiad cyfredol ar y gwardeiniaid. | |
| **11.00** | Materion brys: · Neuadd yr Eglwys - mae stori wedi ymledu bod y safle yn mynd i gael ei werthu ar gyfer datblygu tai. Mae hyn yn groes i'r hyn a ddywedwyd gan y Tad Dylan Williams. Y Clerc i wneud ymholiadau. · Arriva - y Clerc i ysgrifennu ar Arrive i ofyn oes modd iddynt sicrhau bod costau o'r Felinheli i Gaernarfon yn debyg i'r costau i'r pentrefi cyfagos eraill i Gaernarfon. · Menter Felinheli - Y Clerc i wneud ymholiadau beth sydd yn digwydd. · Dim penderfyniad wedi ei wneud ynglŷn â Chau'r ysgol hyd yma. | |
| | **Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9.10 yn y r hwyr.** | |
| **Llofnod:**  | | **Dyddiad: 9/7/24** |